OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2009 Rhif 1977 (Cy.176)

Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Rhagnodi Cyffuriau Etc.) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2009

Gwnaed - - - -	*20 Gorffennaf 2009*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*21 Gorffennaf 2009*
Yn dod i rym - -	*21 Gorffennaf 2009*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 46, 203(9) a (10) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

Enw, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Rhagnodi Cyffuriau Etc.) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2009 a deuant i rym ar 21 Gorffennaf 2009.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Rhagnodi Cyffuriau Etc.) (Cymru) 2004

2.—(1) Mae Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Rhagnodi Cyffuriau Etc.) (Cymru) 2004(**2**) wedi'u diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn Atodlen 2 (cyffuriau neu feddyginiaethau i'w harchebu o dan amgylchiadau penodol yn unig), yn y cofnod am y cyffur Zanamivir (Relenza)—

(a) Rhif er y paragraff cyfredol am y cofnod yng ngholofn 2 yn "(1)"; a

(b) mewnosoder yng ngholofnau 2 a 3 yn y drefn honno—

"(2) Adult and child patients where the supply of drugs is— (a) made—	Treatment and prophylaxis of influenza".

(**1**) 2006 p.42.
(**2**) O.S. 2004/1022 (Cy.119); diwygiwyd y Rheoliadau hyn gan O.S. 2005/366 (Cy.32) a chan O.S. 2009/1838 (Cy.166).